OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2466 (Cy. 235)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Man i'r Dwyrain o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan i Fan i'r De o Ganarew, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014

*Gwnaed* *5 Medi 2014*

*Yn dod i rym* *14 Medi 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon a Chefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40 a'r A449) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Medi 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Man i'r Dwyrain o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan i Fan i'r De o Ganarew, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 14 Medi 2014 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw'r darnau o gefnffyrdd yr A40 a'r A449 yn siroedd Powys a Mynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 4.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 4 ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

**Atal**

**8.** Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Mynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2007**(3)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Medi 2014

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)**Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2007/1333 (Cy.126)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau dros dro

i) Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd cefnffyrdd yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

ii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de cefnffordd yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

iii) Y darn cyfan o gilfan cefnffordd yr A40, sydd â'i ganolbwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Penpergwm.

iv) Y darn cyfan o gilfan cefnffordd yr A40, sydd â'i ganolbwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Hardwick Lane.

v) Y darn cyfan o gilfan cefnffordd yr A40, sydd â'i ganolbwynt 470 o fetrau i'r dwyrain o danffordd sy’n gwasanaethu Dobson's Farm.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

i) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

ii) Y darn o gefnffyrdd yr A449 a’r A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at bwynt 105 o fetrau i'r de-orllewin o borth deheuol Twnelau Gibraltar.

iii) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 271 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Dixton hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

iv) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de cefnffordd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

i) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 146 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd fynediad Glangrwyney Court hyd at bwynt 134 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Red Barn Road.

ii) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

iii) Y darn o gefnffyrdd yr A449 a’r A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

iv) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de cefnffordd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

## ATODLEN 4
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a gwaharddiad dros dro ar oddiweddyd

i) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 146 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r ffordd fynediad i Glangrwyney Court hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd-orllewin o Gylchfan Hardwick.

ii) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

iii) Y darn o gefnffyrdd yr A449 a’r A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

iv) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de cefnffordd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.